Dyweddodd y Cyngorydd Sir David Price fod Sarah McNicholas, merch y Cyngorydd Sir Susan McNicholas, yn ymddangos mewn cynhyrchiad o Evita yn y West End ar hyn o bryd. Cytunwyd i Gadeirydd y Cyngor ysgrifennu at Sarah i'w llonyfarch ar ei llwyddiant.

#### **5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD**

**CC81 – 2014**

Atgoffodd yr Arweinydd y Cyngor o'r setliad siomedig ar gyfer y gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r heriau y byddai'n ei olygu o safbwyt darparu gwasanaethau. Diolchodd i'r Cyngorwyr hynny a'r cyhoedd a oedd wedi mynchu'r digwyddiadau ymgynghori ynglŷn â'r gyllideb.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelodau i enwebu busnes bach yn eu hardal i fynychu derbyniad yr oedd yn ei gynnal yn y Ffair Aeaf.

#### **6. BRIFF Y PRIF WEITHREDWR**

**CC82 – 2014**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ar gofnod ei ddiolch i'r aelodau staff hynny a oedd wedi gweithio i gael Tŵr Brycheiniog yn barod mewn pryd i gynnal digwyddiadau'r Cyngor yn Sioe Frenhinol Cymru. Nododd lwyddiant y ras seiclo Taith Prydain ym mis Medi ac edrychai ymlaen at y Rali Cymru Prydain Fawr ym mis Tachwedd pan fyddai

pedwar cymal yn cael eu cynnal yn y sir a phan fyddai canolfan wasanaethu'n cael ei lleoli yn y Drenewydd.

Diolchodd i bawb a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgynghori ynglŷn â'r gyllideb a dywedodd ei fod wedi cael adborth da oddi wrthynt. I'r dyfodol, byddai'r gynhadledd arweinyddiaeth staff yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd a'r gwobrau staff ym mis Rhagfyr. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Williams a oedd yn cynnig cadw Powys fel y mae. Byddai adroddiad yn dod gerbron y Cabinet yn fuan ar y ffordd ymlaen ar integreiddio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

<b>7.</b>	<b>TROSGLWYDDIADAU YN Y GYLLIDEB SYDD ANGEN CYMERADWYAETH Y CYNGOR</b>	<b>CC83 – 2014</b>
-----------	------------------------------------------------------------------------	--------------------

Ystyriodd y Cyngor ddu drosglwyddiad o dros £300,000 yn y gyllideb yr oedd gofyn cael cymeradwyaeth lawn y Cyngor ar eu cyfer.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiad o £3,134,000 yn y gyllideb o safbwyt y rhaglen moderneiddio ysgolion a £386,250 o safbwyt y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau.**

<b>8.</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD</b>	<b>CC84 – 2014</b>
-----------	-------------------------------------------	--------------------

Bu'r Cyngor yn ystyried yr adroddiad blynnyddol ar berfformiad.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
Cymeradwyo'r Crynodeb a'r Gwerthusiad Blynnyddol o Berfformiad drafft ar gyfer 2014.	Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn bwrw cyfrif cytbwys ac agored o berfformiad y cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, yn erbyn y gweithgareddau a'r mesurau a oedd wedi'u nodi yng Nghynllun Newid Powys 2013-16 a bod y cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol fel y'u hamlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

<b>9.</b>	<b>DISGOWNTIAU TRETH GYNGOR - EIDDO SYDD HEB EU MEDDIANNU A HEB EU DODREFNU I RADDAU HELAETH</b>	<b>CC85 – 2014</b>
-----------	--------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------

Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir canlynol ddatgan buddiant yn yr eitem hon a gadael y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei drafod:

P.J. Ashton, D. Bailey, L.C. Corfield, D.E. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, D.O. Evans, W.J. Evans, M.R. Harris, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, E.M. Jones, Eldrydd Jones, G.M. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, H. Lewis, P.E. Lewis, D.J. Mayor, P. J.

Medlicott, G. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, D.R. Price, P.C. Pritchard, J.G. Shearer, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.J. Van-Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams ac A. York.

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd cymerodd yr Is-gadeirydd Cynorthwyo y gadair ar gyfer yr eitem hon.

Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro a oedd hi'n briodol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad gan nad oedd yr aelodau hynny o'r Cabinet a oedd â buddiannau personol a rhagfarnus wedi datgan y buddiannau hynny pan fu'r Cabinet yn ystyried y mater. Dywedodd y Swyddog Monitro mai'r Cyngor llawn oedd y corff gwneud penderfyniadau a'i bod yn briodol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd amser yn hollbwysig gyda'r adroddiad a dywedwyd wrthynt y byddai penderfyniad y Cyngor yn effeithio ar sylfaen y Dreth Gyngor yr oedd yn rhaid ei phennu ar 11 Tachwedd gan fod tua 1,500 o eiddo ar hyn o bryd yn derbyn y gostyngiad o 50%. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (Swyddog Adran 151), os na chytunai'r aelodau ar yr adroddiad y gallai'r sylfaen Dreth Gyngor gael ei phennu o hyd, ond heb fantais y newidiadau arfaethedig.

Gadawodd y Cynghorwyr C. Davies a G. Williams y cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai cael gwared ar y disgownt yn esgor ar refeniw ychwanegol ynddo'i hun, ond byddai yn rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd i'r dyfodol i godi premiwm ar eiddo sydd heb eu meddiannu a heb eu dodrefnu i raddau helaeth o 1<sup>af</sup> Ebrill 2017, premiwm y byddai'r Cyngor yn cadw'r incwm ychwanegol ohono. Hysbyswyd y Cyngor hefyd fod Powys ymmsg lleiafrif o awdurdodau yng Nghymru oedd yn caniatáu disgownt.

Gofynnwyd i'r swyddogion a ellid bod amgylchiadau lle gallai landlord fod yn gymwys i gael gostyngiad, er enghraifft, os yw tŷ yn anaddas i fw ynddo, ac fe'u hysbyswyd nad oedd yn bosibl atodi mein prawf i ddisgownt o 50%, er y gallai eithriadau eraill fod yn weithredol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd lle bo tŷ wedi'i adael yn wag ar ôl marwolaeth y byddai eithriad o 100% yn weithredol nes caniateir profiant ac y byddai'n parhau am 6 mis arall.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu i aelodau sydd â buddiannau wneud sylwadau ysgrifenedig. Daeth un sylw o'r fath i law oddi wrth y Cyngorydd Sir Linda Corfield a chyflwynwyd y manylion. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ynghylch eu hamgylchiadau drwy ysgrifennu at swyddogion.

PENDERFYNWYD	Rheswm am y Penderfyniad:
Ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddua) (Cymru) (Diwygio) 2004 na	Mae gofyn i'r Cyngor benderfynu pryd na fydd disgownt yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol a chyhoeddi'r penderfyniad dan adran 12 (6) o'r Ddeddf.

<b>fydd y disgownt i annedd drethadwy Dosbarth C Ragnodedig sydd heb ei meddiannu a heb ei dodrefnu i raddau helaeth yn weithredol ac y bydd y penderfyniad hwn yn aros mewn grym ym mhob blwyddyn ariannol oni chaiff ei ddiddymu.</b>	
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Gofynnodd y Cyngorydd Sir G.D. Price i'w bleidlais ef yn erbyn gael ei chofnodi.

<b>10.</b>	<b>DIWYGIO'R CYFANSODDIAD PRESENNOL – CC86 – 2014 RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (RHEOLAU SEFYDLOG) (CYMRU) (DIWYGIO) 2014</b>	
------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Fe wnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd ddatgan buddiant yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei ystyried.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Rheolau Sefydlog i lywodraethu reciwtio, penodi a diswyddo staff.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<p><b>3. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau i Ran 4 Adran 9 o'r Cyfansoddiad fel y gwelir yn Atodiad A i'r adroddiad. (Mae copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion llofnodedig).</b></p> <p><b>4. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiad i Erthygl 4 o'r Cyfansoddiad fel y gwelir yn Atodiad B i'r adroddiad.</b></p>	Er mwyn diweddu a gwneud diwygiadau brys i Gyfansoddiad presennol y Cyngor.

<b>11.</b>	<b>PROTOCOL DATRYS YN LLEOL</b>	<b>CC87 – 2014</b>
------------	---------------------------------	--------------------

Bu'r Cyngor yn ystyried Proses Datrys yn Lleol ar gyfer delio â chwynion llai difrifol am Aelodau. Roedd yr Ombudsmon wedi gofyn i awdurdodau lleol sefydlu proses ar gyfer delio â chwynion llai difrifol drwy broses gyfryngu dan ofal y Swyddog Monitro, arweinyddion grwpiau a Chadeirydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Protocol Datrys yn Lleol.**

<b>12.</b>	<b>GWEITHREDU ANNERBYNIOL GAN DDEFNYDDWYR</b>	<b>CC88 – 2014</b>
------------	-----------------------------------------------	--------------------

	<b>GWASANAETHAU</b>	
--	---------------------	--

Hysbyswyd y Cyngor bod y polisi hwn yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan y cyhoedd wrth ddelio â staff y Cyngor.

Mynebwyd peth pryder y gallai'r polisi atal pobl rhag mynd ar drywydd cwynion diliys yn erbyn y Cyngor. Esboniwyd mai'r bwriad oedd defnyddio'r polisi fel dewis olaf ar ôl rhoi cynnig ar ddulliau eraill a oedd wedi methu.

Awgrymodd y Prif Weithredwr fod y Tîm Rheoli yn edrych ar sut i weithredu'r polisi a monitro ei ddefnydd. Dywedodd hefyd fod y gweithdrefnau ar gyfer delio â gohebiaeth yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ymatebion amserol.

Awgrymwyd a chytunwyd y dylid cael hefyd bolisi ar gyfer diogelu aelodau etholedig.

Yn amodol ar gywiro nifer o wallau teipograffyddol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi ar Weithredu  
Annerbyniol gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau.**

<b>13. MYNYCHU O BELL A GWEDDARLLEDU</b>	<b>CC89 – 2014</b>
------------------------------------------	--------------------

**Mynychu o Bell**

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyn i gynghorau ddatgan yn eu cyfansoddiadau a fyddai cyfarfodydd â mynchu o bell yn cael eu caniatáu. Hysbyswyd y Cyngor na fyddai mynchu o bell yn bosibl oherwydd y penderfynwyd peidio â gosod systemau gyngres newydd yn Neuadd Brycheiniog a Neuadd Maldwyn. Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd wedi nodi'r sefyllfa ac wedi argymhell wrth y Cyngor bod datganiad yn cael ei gynnwys yn y cyfansoddiad presennol a'r cyfansoddiad newydd na fyddai cyfarfodydd mynchu o bell yn cael eu cynnal. Cafodd gwelliant i ddileu rhan o argymhelliaid y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd a oedd yn cydnabod gwerth mynchu o bell ei gynnig a'i eilio.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
<b>Na chaiff cyfarfodydd mynchu o bell eu cynnal a bod hyn yn cael ei gynnwys yn Rhan 4, Adran 1 o'r Cyfansoddiad presennol a Rheol 4.27 o'r Cyfansoddiad newydd.</b>	<b>Er mwyn ceisio barn y Cyngor am gynnal cyfarfodydd mynchu o bell.</b>

Gadawodd y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander ac R.H. Mills y cyfarfod.

Cafodd y ddadl ar weddarlledu ei gohirio tan ar ôl cinio oherwydd yr angen i gymryd eitem 15 ar yr agenda gan fod disgylion o dair ysgol yn bresennol.

<b>15. GWOBR ANSAWDD GENEDLAETHOL CYNLLUNIAU</b>	<b>CC91 – 2014</b>
--------------------------------------------------	--------------------

	<b>YSGOLION IACH - RHWYDWAITH CYMRU</b>	
--	-----------------------------------------	--

Rhoddodd disgylion o Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangors, Ysgol Gynradd Pontnewydd ar Wy ac Ysgol Gynradd Carregchofa gyflwyniad i'r Cyngor ar y gwaith roeddent wedi'i wneud i fod yn rhan o Wobr Answeddol Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yn ddiweddarach cyflwynwyd eu gwobrau i'r disgylion gan Chaz Davies, Pencampwr Byd *Supersport* 2011.

Cafodd y Cyngor egwyl i ginio rhwng 13.05 a 13.45.

Gadawodd y Cynghorwyr J.H. Brunt, C. Davies, S. Davies, R.I. George, W.D. Powell a G. Williams y cyfarfod. Ymunodd y Cynghorydd D.G. â'r cyfarfod.

<b>13.</b>	<b>MYNYCHU O BELL A GWEDDARLLEDU</b>	<b>CC89 – 2014</b>
------------	--------------------------------------	--------------------

### **Gweddarledu**

Hysbyswyd y Cyngor bod Papur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru "Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni" wedi nodi y byddai gweddarlledu yn dod yn orfodol i'r dyfodol, ond nad oedd yn hysbys hyd yma pa gyfarfodydd y byddai hyn yn berthnasol iddynt. Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd wedi ystyried y mater ac wedi argymhell yn y lle cyntaf y dylai cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy gael eu gweddarlledu. Ceisiwyd barn y Cabinet a'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy ac adroddwyd yn ôl wrth y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy er ei fod yn dymuno cael gweddarllediad o'i gyfarfodydd, yn dymuno hefyd i barhau i gyfarfod mewn lleoliadau gwahanol.

Fe wnaeth cynnig i gymeradwyo argymhelliaid y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd fethu o'i roi i bleidlais.

Cynigiwyd y dylid gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd adrodd yn ôl wrth y Cyngor gydag opsiynau wedi'u costio ar gyfer lefel isaf, lefel fwyaf a lefel ganolraddol o weddarledu.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd yn adrodd yn ôl wrth y Cyngor gydag opsiynau wedi'u costio ar gyfer lefel isaf, lefel fwyaf a lefel ganolraddol o weddarledu.**

Cynigiwyd ymhellach y dylid cysylltu â CLILC er mwyn i awdurdodau lleol wneud apêl ar y cyd i Lywodraeth Cymru i ariannu costau gweddarlledu.

**PENDERFYNWYD cysylltu â CLILC er mwyn i awdurdodau lleol wneud apêl ar y cyd i Lywodraeth Cymru i ariannu costau gweddarlledu.**

<b>14.</b>	<b>CYFANSODDIAD NEWYDD</b>	<b>CC90 – 2014</b>
------------	----------------------------	--------------------

Cytunwyd i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

<b>16.</b>	<b>PENODI I GYNGOR CLILC</b>	<b>CC92 – 2014</b>
------------	------------------------------	--------------------

**PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd Sir Wynne Jones i Gyngor CLILC.**

<b>17.</b>	<b>PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO</b>	<b>CC93 – 2014</b>
------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i bwylgorau a chyrff allanol a wnaed gan y Swyddog Monitro dan y pŵer dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16eg Mai 2013:

Penodwyd y Cyngorydd Sir David Jones i Bwylgor yr Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhreftn

Penodwyd y Cyngorydd Sir Francesca Jump i Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru.

<b>18.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A PETER LEWIS</b>	<b>CC94 – 2014</b>
------------	--------------------------------------------------------------------------	--------------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Aled Davies ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Peter Lewis:

“I gefnogi'r Gymraeg, ni fydd Cyngor Sir Powys ond yn mabwysiadu enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd y Cyngor.”

**PENDERFYNWYD, i gefnogi'r Gymraeg, na fydd Cyngor Sir Powys ond yn mabwysiadu enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd y Cyngor.**

<b>19.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A GWYNFOR THOMAS</b>	<b>CC95 – 2014</b>
------------	-----------------------------------------------------------------------------	--------------------

Dyweddodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb i aelodau â buddiannau siarad a phleidleisio ar y mater hwn.

Fe wnaeth y Cyngorwyr Sir R.G. Brown, L.V. Corfield, A.W. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, D.O. Evans, W.J. Evans, M.R. Harris, S.M. Hayes, E.M. Jones, Eldrydd Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, P.E. Lewis, J.G. Morris, W.J.T. Powell, D.R. Price, J.G. Shearer, R.G. Thomas, W.B. Thomas a T.J. Van-Rees ddatgan buddiant.

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Aled Davies ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Gwynfor Thomas:

“Mae ffermwyr gwartheg llaeth ac eidion Powys dan bwysau aruthrol. Bu gostyngiad sylweddol ym mhris cig eidion wrth giât y fferm yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae achosion o TB yn parhau i gael effaith andwyol ar ffermydd gwartheg llaeth ac eidion. Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal treial ar y cyd ledled Powys ar ddileu TB. Ni fyddai'r treial hwn yn costio dim i Lywodraeth Cymru. Yr oll fyddai'r treial yn gofyn i Lywodraeth Cymru ei wneud yw rhoi trwydded i ffermwyr sydd wedi dioddef achos o TB. Nod y treial fyddai canfod a geid effaith ar achosion o TB ar ffermydd Powys pan roddir trwydded i fferm sy'n caniatáu i'r ffermwr reoli'r boblogaeth moch daear ar y fferm honno ar yr un diwrnod ag y cyflwynir y Cyfyngiad Symud Da Byw o ganlyniad i achos o TB. Byddai Cyngor Sir Powys yn monitro llwyddiant y treial drwy gofnodi'r achosion o TB dros gyfnod y treial. Nod y treial yw gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwytio'n agos ar achosion o TB.”

Methu wnaeth y cynnig o'i roi i bleidlais.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir A. Holloway, P.E. Lewis ac R.G. Thomas y cyfarfod.

<b>20.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR PAUL ASHTON A WILLIAM POWELL</b>	<b>CC96 – 2014</b>
------------	-------------------------------------------------------------------------	--------------------

Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir L.V. Corfield, G.M. Jones a J.G. Morris ddatgan buddiannau personol a rhagfarnus yn y mater hwn a gadawsent y Siambra tra bod y mater yn cael ei drafod.

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Paul Ashton a'r Cyngorydd Sir William Powell:

“Mae'r Cyngor yn nodi:

Yn Sir Powys mae dros 2,300 o bobl yn byw â Dementia.

Ledled Cymru yn ei chyfanwydd, mae mwy na 45,000 o bobl yn byw gyda'r cyflwr.

Amcangyfrifwyd bod cost Dementia i Gymru yn dros £1.26 biliwn yn 2013.

Mae dwy ran o dair o bobl sydd â Dementia yn byw yn y gymuned, llawer ohonynt ar eu pen eu hunain. Mae'r traean arall o bobl â Dementia yn byw mewn cartref gofal.

Dim ond 41% o bobl sy'n byw â Dementia ym Mhowys sydd wedi cael diagnosis ffurfiol.

Mae cael diagnosis yn allweddol er mwyn cael mynediad i gefnogaeth statudol a thrydydd sector. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ymrwymo i fod yn barc cenedlaethol “Dementia-Gyfeillgar” cyntaf yn y DU.

Aberhonddu oedd y gymuned gyntaf yng Nghymru i ennill y statws cydnabyddedig gan y Gymdeithas Alzheimers “Gweithio i Fod yn Ddementia-Gyfeillgar”.

Mae'r Cyngor yn addunedu i:

- Weithio gyda chymunedau ledled Powys i'w helpu i ennill statws "Gweithio i Fod yn Ddementia-Gyfeillgar", gyda'r nod o wneud Powys yn gyntaf yng Nghymru i fod yn sir "Ddementia-Gyfeillgar".
- Penodi aelod etholedig i hyrwyddo'r achos "Dementia-Gyfeillgar", a phenodi swyddog arweiniol dros Ddementia.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Grwpiau Cymunedol Dementia-Gyfeillgar ym Mhowys, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i ddatblygu a gwella gwasanaethau i bobl â Dementia.
- Annog Cynghorwyr, staff a'n darparwyr gofal i ddod yn Ffrindiau Dementia drwy gyfrwng cynllun Ffrindiau Dementia y Gymdeithas Alzheimers.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia. Sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i bobl sy'n byw â Dementia a'u gofalwyr drwy eu cynnwys yn benodol mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Sicrhau bod polisiau Adnoddau Dynol yn adlewyrchu anghenion gofalwyr yn ein gweithlu."

Yn ystod y drafodaeth cytunodd y cynigydd i ddiwygio'i gynnig i ddileu'r 2 bwynt bwled olaf.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn addunedu i:**

- Weithio gyda chymunedau ledled Powys i'w helpu i ennill statws "Gweithio i Fod yn Ddementia-Gyfeillgar", gyda'r nod o wneud Powys yn gyntaf yng Nghymru i fod yn sir "Ddementia-Gyfeillgar".
- Penodi aelod etholedig i hyrwyddo'r achos "Dementia-Gyfeillgar", a phenodi swyddog arweiniol dros Ddementia.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Grwpiau Cymunedol Dementia-Gyfeillgar ym Mhowys, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i ddatblygu a gwella gwasanaethau i bobl â Dementia.
- Annog Cynghorwyr, staff a'n darparwyr gofal i ddod yn Ffrindiau Dementia drwy gyfrwng cynllun Ffrindiau Dementia y Gymdeithas Alzheimers.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir G.W. Ratcliffe y cyfarfod.

<b>21.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR WYNNE JONES AC AVRIL YORK</b>	<b>CC97 – 2014</b>
------------	--------------------------------------------------------------------------	--------------------

Traffododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Avril York:

“Bod y Cyngor yn croesawu'r penderfyniad i gychwyn Adolygiad Annibynnol eang o faterion yn ymwneud â throsglwyddo contractau gofal yn y cartref, ond o ystyried y digwyddiadau diweddar mewn perthynas â'r contractwr REACH, fod y Cyngor yn gofyn bod yr Adolygiad Annibynnol hefyd, yn benodol, yn edrych yn fanwl, ar ba fesurau a gymerodd CSP i ganfod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan REACH, cyn eu penodi. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn i'r adroddiad gan yr Adolygiad Annibynnol gael ei wneud yn gyhoeddus cyn gynted ag y bo modd.”

Cynigiodd yr Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y Cyngor yn symud at yr eitem nesaf ar y sail bod y camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt yn y cynnig eisoes wedi cael eu cymryd. Methodd y cynnig hwn o'i roi i bleidlais.

Cafodd gwelliant pellach a gynigiwyd gan yr Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion ei dynnu'n ôl, felly hefyd welliant gan y Cyngorydd Sir Aled Davies.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn croesawu'r penderfyniad i gychwyn Adolygiad Annibynnol eang o faterion yn ymwneud â throsglwyddo contractau gofal yn y cartref, ond o ystyried y digwyddiadau diweddar mewn perthynas â'r contractwr REACH, fod y Cyngor yn gofyn bod yr Adolygiad Annibynnol hefyd, yn benodol, yn edrych yn fanwl, ar ba fesurau a gymerodd CSP i ganfod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan REACH, cyn eu penodi. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn i'r adroddiad gan yr Adolygiad Annibynnol gael ei wneud yn gyhoeddus cyn gynted ag y bo modd.**

Gadawodd y Cyngorydd Sir S.C. Davies y cyfarfod.

22.	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR WYNNE JONES AC ALED DAVIES</b>	CC98 – 2014
-----	-----------------------------------------------------------------------	-------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cyngorydd Sir Wynne Jones ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Aled Davies:

“Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ailystyried eu penderfyniad y 9fed Medi i gau Canolfan Ailgylchu Machynlleth. Yn hytrach mae'r Cyngor yn teimlo y dylid cynnal adolygiad llawn o holl wasanaethau'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref, gan ystyried pob opsiwn, er mwyn sicrhau'r arbedion cyllidebol a nodwyd eisoes gan y Cabinet, gan alluogi'r Cyngor ar yr un pryd i gynnal gwasanaeth teg ar draws y sir.”

Dadleuai'r ddau Aelod lleol ar gyfer yr ardal, y Cyngorwyr Sir Michael Williams a Gwilym Vaughan, ei bod yn annheg bod Machynlleth yn gorfod ysgwyddo holl arbedion y gwasanaeth gwastraff. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Gwastraff y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar sefydlu is-safle ym Machynlleth ac yn rhoi mesurau lliniaru ar waith.

Gadawodd y Cynghorydd Sir R.G. Brown y cyfarfod.

O roi hyn i bleidlais

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ailystyried eu penderfyniad y 9fed Medi i gau Canolfan Ailgylchu Machynlleth. Yn hytrach mae'r Cyngor yn teimlo y dylid cynnal adolygiad llawn o holl wasanaethau'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref, gan ystyried pob opsiwn, er mwyn sicrhau'r arbedion cyllidebol a nodwyd eisoes gan y Cabinet, gan alluogi'r Cyngor ar yr un pryd i gynnal gwasanaeth teg ar draws y sir.**

Gadawodd y Cynghorwyr Sir G. Bowker, G. Morgan a K.F. Tampin y cyfarfod.

23.	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR WYNNE JONES A TIMOTHY VAN-REES</b>	CC99 – 2014
-----	---------------------------------------------------------------------------	-------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees:

“Bod y Cyngor yn gofyn am adolygiad llawn o'r ddarpariaeth Addysg Uwchradd bresennol ym Mhowys, er mwyn darparu model cynaliadwy i'r dyfodol ynghyd â'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i blant Powys.”

Dangosodd y Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaethau Plant ei gefnogaeth i'r cynnig gan gadarnhau y byddai fersiwn derfynol o adroddiad PWC yn cael ei hanfon at yr aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gofyn am adolygiad llawn o'r ddarpariaeth Addysg Uwchradd bresennol ym Mhowys, er mwyn darparu model cynaliadwy i'r dyfodol ynghyd â'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i blant Powys.**

24.	<b>CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD</b>	CC100 – 2014
-----	--------------------------------------------	--------------

#### **24.1 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Prifffyrrd ac lehyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees**

A fyddai'r cyngor yn darparu ar unwaith i gynghorau tref a chymuned fanylion llawn am y gost o gynnal a chadw a rhedeg y toledau cyhoeddus hynny y mae'r cyngor yn bwriadu eu cynnig i gynghorau tref a chymuned, ac a fyddai'r cyngor yn dweud cyn gynted â phosibl ba gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i adfer cyflwr y toledau cyhoeddus hynny sy'n syrthio'n brin o'r safon dderbyniol i gyflwr o'r fath fel y gall cyngor tref neu gymuned berthnasol gymryd y cyfrifoldeb drostynt yn briodol?

*Anfonwyd gwybodaeth ariannol at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned. Gellir delio ag unrhyw ymholiadau fel rhan o'r trafodaethau sydd wedi cael eu cynnig iddynt. Oherwydd sefyllfa ariannol bresennol yr Awdurdod ni fydd yn bosibl gwneud unrhyw waith adnewyddu cyn eu trosglwyddo.*

Yn ateb i'r cwestiwn atodol y dylid gohirio trosglwyddo cyfleusterau cyhoeddus nes bod adroddiadau cyflwr wedi cael eu darparu i Gynghorau Tref a Chymuned, dywedodd y Deilydd Portffolio fod trafodaethau yn parhau gyda nifer o Gynghorau Tref a Chymuned ar drosglwyddo toledau cyhoeddus. Tra bod y trafodaethau'n parhau ac mae'n edrych yn debygol y byddai'r Cyngor Tref a Chymuned yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb drostynt, byddai'r toledau cyhoeddus hynny yn parhau ar agor, ond gan fod y gyllideb ar fin cael ei phennu, byddai'n rhaid cael dyddiad pryd byddai'n rhaid i'r trafodaethau ddirwyn i ben.

#### **24.2 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrrd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cyngor Tref a Chymuned**

**Mae Cyngor Tref Llanfair-ym-muallt, fel llawer o drefi ym Mhowys, yn cynnal ystod o wasanaethau anstatudol. Mae'r Cabinet eisoes wedi dweud yn glir nad ydynt yn bwriadu parhau i gynnal toledau na pharciau chwarae. Er mwyn i'r trefi hyn wneud penderfyniadau rhesymegol a synhwyrol ar ran eu trigolion sy'n talu'r dreth gyngor am flaenoriaethau, mae arnynt angen gwybodaeth am gostau presennol y darpariaethau hyn. Felly pam bod y deilydd portffolio ac Arweinydd y Cabinet yn amharod i rannu'r gost bresennol o gynnal y toledau ar y Gro gyda'r aelod lleol a'r cyngor tref?**

*Bydd gwybodaeth ariannol fanwl yn cael ei darparu i bob cyngor tref a chymuned ynghylch y blociau toledau yn eu hardal. Bu'n rhaid gwneud cryn dipyn o waith i baratoi'r wybodaeth yn y manylder iawn ac mae hynny wedi arwain at ychydig o oedi.*

Yn ateb i'r cwestiwn atodol ynghylch sut y byddai'r Cabinet yn sicrhau bod Cynghorau Tref yn cael eu hysbysu'n llawn yn amserol o'r gwasanaethau y maent yn bwriadu eu dirprwyo, eglurodd yr Aelod Portffolio ei bod wedi cymryd cryn amser i gyfrifo'r ffigurau ar gyfer pob toled ac y byddai'r wybodaeth ar gael i gynghorau tref a chymuned unigol wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

#### **24.3 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Eiddo ac Asedau gan y Cyngor Tref a Chymuned**

**A allai'r Aelod Portffolio egluro pam bod y gwaith o adnewyddu ffreutur Neuadd y Sir yn cael ei wneud yn ystod misoedd Medi a Hydref yn hytrach nag yn ystod Gorffennaf ac Awst pan fo llai o staff a chynghorwyr yn mynchyu Neuadd y Sir?**

*Yn ystod mis Awst oedd y cynllun gwreiddiol i adnewyddu Cegin Neuadd y Sir i fod i ddigwydd er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar bethau, gan fod y rhan fwyaf o staff a Chynghorwyr i ffwrdd ar wyliau.*

*Oherwydd rhai cwestiynau annisgwyl yngylch cynllun y dyluniad (yn benodol y nifer o sinciau a oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith) cafodd y gwaith adeiladu ei roi o'r neilltu er mwyn ceisio eglurhad drwy lechyd yr Amgylchedd. O'r herwydd roedd y contractwr adeiladu wedi trefnu gwaith arall ac ni allai ddechrau ein gwaith adnewyddu ni tan y 15<sup>fed</sup> o Fedi.*

*Mae'r gwaith a gynlluniwyd ar y trywydd iawn ac mae pob dim yn mynd yn dda, dylai'r bwyty ailagor yn yr wythnos sy'n dechrau 13<sup>eg</sup> Hydref.*

Addawodd yr Aelod Portffolio Eiddo ac Asedau i ddarparu i'r Cyngorydd Roberts Jones fanylion costau'r gwaith adnewyddu ynghyd ag amcangyfrif o faint o refeniw a gollwyd yn ystod y cyfnod.

#### **24.4 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adfywio a Chynllunio gan y Cyngorydd Sir Wynne Jones**

**Yn y Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ym mis Mai, a alwyd i drafod y Cynllun Datblygu Lleol, treuliwyd dipyn o amser yn trafod y cyfnod ymgynghori. Teimlad y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd, os oedd yn rhaid i'r ymgynghoriad ddigwydd dros brif gyfnod y gwyliau, yna y dylai fod yn ymgynghoriad 8 wythnos. Yn dilyn y cyfarfod mae'n ymddangos y cafwyd rhai problemau a arweiniodd at i'r ymgynghoriad fethu â dechrau tan 28ain Gorffennaf ac mai 6 wythnos oedd yr ymgynghoriad, i ddod i ben ar 8fed Medi, felly bron yn gyfan gwbl yn y prif gyfnod gwyliau, ac yn sicr nid yn unol â'r dymuniadau a fynegwyd gan yr Aelodau. Fe wnaeth Arweinwyr dau Grŵp Gwleidyddol ar y Cyngor, wedyn ofyn am ymestyn y cyfnod ymgynghori, ond cafodd hyn ei wrthod heb i unrhyw reswm gael ei roi.**

Felly a allai'r Aelod Portffolio egluro wrth y Cyngor, pam bod y dymuniadau a fynegodd yr Aelodau wedi cael eu hanwybyddu yn yr achos hwn, pwy wnaeth y penderfyniad i gynnal cyfnod ymgynghori o 6 wythnos a gynhaliwyd bron yn gyfan gwbl yn ystod y prif gyfnod gwyliau, a'r rheswm pam os gwelwch yn dda? Yn ogystal pam cafodd y cais am estyniad i'r ymgynghoriad ei wrthod a phwy wnaeth y penderfyniad hwnnw?

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori ar y fersiwn adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Powys o ddydd Llun 28<sup>ain</sup> Gorffennaf tan ddydd Llun 8<sup>fed</sup> Medi (6 wythnos ac 1 diwrnod). Cyhoeddwyd rhybudd cyn y cyfnod ymgynghori drwy e-bost i'r holl gysylltiadau a ddelir ar gronfa ddata'r CDLI ac mewn rhybuddion statudol a gyhoeddwyd yn y County Times ar 11<sup>eg</sup> Gorffennaf a'r Brecon and Radnor Express ar 24<sup>ain</sup> Gorffennaf.

O ran y cyfnod ymgynghori ar y fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol, cafodd hyn ei drafod gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 27<sup>ain</sup> Mai. Cyfeiriaf at eitem 3 o gofnodion y cyfarfod hwn, ac rwy'n ei dyfynnu isod:

**“3. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS – FERSIWN ADNEUO AC ADRODDIADAU ASESU, CC61 – 2013**

Trafodwyd ymestyn y cyfnod ymgynghori a chytunodd swyddogion y byddai'n bosib ei ymestyn hyd at wythnos gyntaf mis Medi, ond byddai'n anodd mynd tu hwnt i hynny. Byddai'r dyddiad ymgynghori yn cael ei gadarnhau yn ddibynnol ar y golygu terfynol a chyfieithu. Cadarnhaodd swyddogion y byddai camgymeriadau argraffyddol yn yr adroddiad yn cael eu cywiro cyn anfon y dogfennau allan i ymgynghori. Dirprwywyd awdurdod i'r Swyddog Proffesiynol Arweiniol i wneud mân ddiwygiadau i Ddrafft Adnau'r CDLI ac unrhyw ddiwygiadau i'r adroddiadau asesu sy'n deillio o newidiadau a gytunir gan y Cyngor i Ddrafft Adnau'r CDLI."

Fe welwch o'r cofnod na wnaeth y Cyngor Llawn unrhyw benderfyniad ynglŷn â hyd y cyfnod ymgynghori ac a ddylai hwn fod yn chwech ynteu'n wyth wythnos. Mae'n nodi y byddai dyddiad yr ymgynghoriad yn cael ei gadarnhau yn amodol ar olygu terfynol a chyfieithu. Ar ôl trafod y sefyllfa gyda swyddogion yn y cyfnod yn dilyn y cyfarfod, cytunais y dylai'r cyfnod ymgynghori fod yn chwe wythnos gan weithio'n ôl o ddiwedd yr wythnos gyntaf ym mis Medi. Chwe wythnos yw'r cyfnod sy'n ofynnol gan Reoliadau'r CDLI a dyma'r cyfnod o amser a nodir yng Nghytundeb Cyflawni'r CDLI a ddiwygiwyd ym Mawrth 2013 fel y'i cymeraowyd gan y Cyngor Llawn. Fel y nodwyd uchod, rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r cyfnod ymgynghori er mwyn helpu ymatebwyr i gynllunio ymlaen ar gyfer yr ymgynghoriad.

Cafodd y penderfyniad i wrthod y ddau gais gan Aelodau i ymestyn y cyfnod ei wneud gennylfi ar ôl holi swyddogion. Gwnaed y ddau gais i ymestyn y cyfnod ymgynghori yn ystod y cyfnod ymgynghori, a byddai ymestyn y cyfnod bryd hynny wedi bod yn anymarferol oherwydd y byddai wedi golygu hysbysu pawb ar y gronfa ddata CDLI drwy lythyr ac e-bost ac ail-redeg rhybuddion statudol yn y wasg leol. Hefyd, ychydig iawn o geisiadau i ymestyn y cyfnod ymgynghori a ddaeth i law a dyna paham y gwneuthum y penderfyniad i beidio ag ymestyn na newid y cyfnod ymgynghori.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**24.5 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyllid gan y Cyngorydd Sir Wynne Jones**

A allai'r Deilydd Portffolio esbonio wrth y Cyngor y strategaeth a'r cyfeiriad gwleidyddol y mae ef wedi'i bennu, ar gyfer y cyfnod hyd at 2020, ar gyfer pennu a rheoli'r gyllideb, a sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Cyngor?

Mae'r adroddiad i'r Cabinet ar 21<sup>ain</sup> Hydref yn amlinellu ein dull o weithredu er mwyn delio â'r her sylweddol a wynebwn i geisio sicrhau arbediad

*amcangyfrifriedig o £70 miliwn. Yn gryno bydd hyn yn cynnwys cynllunio tymor hwy a dull gweithredu sy'n edrych ar feisydd gweithgaredd pwysig, gan rannu gwasanaethau lle bo'n briodol gyda phartneriaid a lleihau maint ein stad eiddo. Mae'n anochel y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y math o wasanaeth a'r lefel o wasanaeth a ddarparwn. Fel rhan o'r broses hon byddwn yn parhau i herio ai ni yw'r darparwr gwasanaethau mwyaf priodol fel rhan o ddull y cyngor comisiynu o ddarparu gwasanaethau.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.6 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyllid gan y Cyngorydd Sir David Jones**

**A allai'r Deilydd Portffolio ddarparu manylion cost cinio mewn ysgolion cynradd y pen i'r cyngor hyd at y pwynt pan gaiff y pryd ei weini ond heb gynnwys costau'r ddarpariaeth fwyta ei hun?**

*Roedd cost gros paratoi a chyflwyno prydau ysgol yn y sector Cynradd ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014 yn £2,645,444. Mae'r ffigur hwn yn cael ei addasu i £2,711,051 ar ôl ei ostwng i fwrr cyfrif o'r costau yr eir iddynt am osod a chlirio'r dodrefn bwyta ac ychwanegu yn ôl y gost yr eir iddi i dalu arianwyr i gasglu arian cinio ym mhob ysgol, ynghyd â chost sbwriel. Roedd nifer y prydau bwyd y talwyd amdanynt a'r prydau am ddim a ddarparwyd yn y sector yn ystod y flwyddyn yn 995,324, gan roi cost gros o £2.72 y pryd.*

*Roedd yr incwm a dderbyniwyd o brydau y talwyd amdanynt am y flwyddyn yn £1,786,583. Nid yw'r costau uchod yn cynnwys cost trydan, nwy na dŵr a ddefnyddir i ddarparu'r prydau bwyd; gan fod y costau hyn yn cael eu talu yn uniongyrchol gan gyllideb ddirprwyedig pob ysgol ac nid ydynt yn cael eu codio ar wahân.*

Addawodd y Deilydd Portffolio i ddarparu'r wybodaeth i ymateb i'r cwestiwn atodol ynglŷn ag a fyddai'r gwasanaeth pryd ar glud yn parhau gan na cheid elfen o gymhorthdal cyhoeddus.

#### **24.7 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyllid gan y Cyngorydd Sir David Jones**

**A allai'r Deilydd Portffolio ddarparu manylion y cyllid a ddarperir gan y cyngor sir i redeg a chynnal a chadw ein canolfannau hamdden a chwaraeon yn ogystal â manylion yr arian y mae cwsmeriaid yn ei dalu i ddefnyddio'r gwasanaeth?**

<i><b>Incwm</b></i>	<i><b>Cyfanswm incwm</b></i>
<i>Taliadau a ffioedd cyhoeddus a delir wrth y dderbynfa</i>	<i>£3,201,000</i>
<i>Defnydd ysgolion o ganolfannau hamdden a</i>	<i>£ 549,000</i>

<i>chwaraeon ar gyfer YC a nofio cyfnodau allweddol</i>	
<i>Grantiau Llywodraeth Cymru/Chwaraeon Cymru ar gyfer Cynllun Llywodraeth Cymru “nofio am ddim” i rai dan 16 a dros 60.</i>	<b>£ 327,000</b>
<b>CYFANSWM INCWM</b>	<b><u>£4,077,000</u></b>
<b><u>LLAI; CYFANSWM GWARIANT (gan gynnwys gweithgareddau y gellir ailgodi tâl amdanynt)</u></b>	<b><u>£8,243,000</u></b>
<b><u>GWARIANT NET CYN TROSGLWYDDO</u></b>	<b><u>£4,166,000</u></b>

Y cwestiwn atodol oedd faint oedd yn y gyllideb fel arbediad ar gyfer y system reoli nid er elw. Fe wnaeth yr Aelod Portffolio ddatgan bod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus a darparodd y Cyfarwyddwr Strategol - Lle yr ateb bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys arbediad o £450,000 yn seiliedig i raddau helaeth ar drethi annomestig a bod gofyn cynhyrchu incwm i fuddsoddi yn y gwasanaeth.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir V.E. Evans, W.J. Evans a H. Lewis y cyfarfod.

#### 24.8 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Joy Shearer

A all y Deilydd Portffolio esbonio wrth y Cyngor pam bod CSP wedi methu yn ei ddyletswydd gofalu i gydymffurfio ag argymhellion yr Awdurdod Tân i waith gael ei wneud yn Ysgol Rhiw-Bechan?

*A gaf fi ddechrau drwy ymddiheuro i'r Cynghorydd Shearer a'r Gymuned Ysgol am yr oedi cyn gweithredu ar faterion a godwyd gan yr Awdurdod Tân.*

*Rwy'n cadarnhau y bu gan yr ysgol hon (ac mae ganddi o hyd) system larwm Tân weithiadwy gwbl weithredol drwy'r ysgol. Roedd argymhelliaid ychwanegol y swyddog Tân i gysylltu'r ganolfan gymunedol gyfagos pan fydd yr ysgol yn ei meddiannu, yn golygu bod angen newid y ddwy system weithredol bresennol, yn un uned integredig. Mae hyn yn golygu ymrwymiad ariannol gan CSP a phwyllgor y cyngor cymuned. Mae hyn wedi cyfrannu at yr amser a gymerwyd i ddelio'n llawn â'r mater hwn yn llawn.*

*Mae swyddogion o'r adran Gwasanaeth Ysgolion ac Eiddo yn y 2 fis diwethaf wedi cytuno ar Restr Waith gyda Phennaeth dros dro a Llywodraethwyr yr ysgol i roi sylw i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.*

*Disgwylir i'r gwaith y cytunwyd arno gael ei gwblhau yn ystod yr hanner tymor nesaf.*

Yn ateb i'r cwestiwn atodol ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol pe ceid digwyddiad difrifol, diolchodd yr Aelod Portffolio i'r Cyngorydd Shearer am dynnu ei sylw at hyn a dywedodd y byddai'n rhoi iddi'r dyddiad pan fyddai'r gwaith yn cael ei wneud.

#### **24.9 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adfywio a Chynllunio gan y Cyngorydd Sir David Price**

Yn draddodiadol arferid cynnal cyfarfodydd Cyswllt Cynllunio rhwng Gwasanaeth Cynllunio'r Sir a Chyngorau Tref a Chymuned ddwywaith y flwyddyn yng ngogledd a de'r Sir ac roedd pawb dan sylw yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd dim un Cyfarfod Cyswllt Cynllunio er mis Ebrill 2012, er i'r Cyngorau Tref a Chymuned ofyn iddynt gael eu cynnal. A allai'r Aelod Portffolio roi'r rhesymau pam nad yw'r cyfarfodydd gwerthfawr hyn wedi cael eu cynnal er mis Ebrill 2012 ac a yw hi yn bwriadu eu hadfer, ac os felly, pryd?

*Daeth y cyfarfodydd cyswllt rhwng y gwasanaeth cynllunio a'r Cyngorau Tref a Chymuned i ben tua dwy flynedd yn ôl. Ers hynny, mae'r gwasanaeth cynllunio wedi mynd drwy broses gwella perfformiad sylweddol sydd wedi arwain at ystyried a gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn gyflymach. Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu at nod cyffredinol y Cyngor o wneud arbedion i'w gyllideb ac wedi llwyddo i sicrhau mwy o allbwn gyda llai o swyddogion, a thrwy hynny mae wedi cynyddu ei gynhyrchiant cyffredinol. Gydol y broses hon o newid, nid yw trefnu a gweinyddu cyfarfod cyswllt cyffredinol gyda Chyngorau Tref a Chymuned wedi cael ei nodi fel gweithgaredd a fydd yn arwain at well cynhyrchiant. Mae'r gwasanaeth yn derbyn sylwadau yn rheolaidd iawn gan Gynghorau Tref a Chymuned. Rydym yn dal i chwilio am fwy o arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth yn gyffredinol ac rydym yn gobeithio symud i anfon dogfennau atynt drwy ddulliau electronig i'r dyfodol. Ar y sail honno nid wyf yn bwriadu adfer y cyfarfodydd cyswllt cyffredinol.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.10 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cyngorydd Sir Stephen Hayes**

O ystyried eich barn chi, a fynegir yn aml ac yn rymus, fod y Cyngor yn cyflogi llawer gormod o reolwyr canol, a fyddech gystal â rhoi gwybod i'r cyngor am y camau'r ydych chi fel deiliad portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol wedi eu cymryd i ganfod maint y broblem a'r camau y byddwch yn eu cymryd i unioni hyn?

*Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Proffesiynol a Chomisiynu yn ddiweddar wedi cynnal astudiaeth o haenau rheoli a rhychwantau rheolaeth rheolwyr ar*

*draws y Cyngor yn dilyn gweithredu'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn gynharach yn y flwyddyn ac ad-drefnu dilynol i'r gwasanaethau. Defnyddiai'r astudiaeth fodel a gydnabyddir yn eang i fesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd strwythurau sefydliadol y Cyngor. Adroddwyd am ganlyniad yr astudiaeth hon wrth y Tîm Rheoli ac chaiff ei ddefnyddio i lywio ad-drefnu strwythurol. Er bod yr astudiaeth wedi nodi cyfleoedd i wella ymhellach a bod yn fwy effeithlon, fe welodd symudiad bwriadol oddi wrth hierarchaethau rheolaethol helaeth a rhychwantau rheolaeth byr a oedd i'w gweld yn hanesyddol mewn rhai strwythurau sefydliadol cyn gweithredu Statws Sengl. Canfu hefyd fod aneffeithlonrwydd mewn strwythurau trefniadol yn cael sylw mewn ymateb i'r her o gyrraedd targedau arbedion.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.11 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cyngorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**A yw'r Deilydd Portffolio'n fodlon gyda'r lefel bresennol o absenoldeb oherwydd salwch yn y cyngor, ac a oes unrhyw wasanaethau lle mae'n teimlo bod y lefelau absenoldeb yn annerbyniol?**

*Ynghlwm ceir adroddiad sy'n cynnwys yr ystadegau cyfredol ar absenoldeb oherwydd salwch. [wedi'u ffeilio gyda'r cofnodion llofnodedig]*

*Drwyddynt draw, mae'r ffigurau'n adlewyrchu;*

- *Y rhagwelir y bydd nifer gyfartalog y dyddiau a gollir ym mhob swydd gyfwerth ag amser llawn (FTE) ar draws y Cyngor yn 0.49 diwrnod yn llai ar ddiwedd blwyddyn 2014/15 o'i gymharu â ffigurau gwirioneddol 2013/14.*
- *Bod ffigur Meincnod Cenedlaethol Cymru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 8 diwrnod ym mhob swydd FTE, yn seiliedig ar y ffigwr amcanol a gymerwyd o chwarter 1, fod nifer cyfartalog y dyddiau a gollir ym mhob swydd FTE ar draws y Cyngor yn 0.16 diwrnod yn llai ar ddiwedd blwyddyn 2014/15 o'i gymharu â'r ffigurau gwirioneddol ar gyfer 2013/14.*

*Darperir dadansoddiad fesul gwasanaeth yn yr adroddiad yn seiliedig ar yr un cymariaethau a esbonnir uchod.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.12 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaeth Plant gan y Cyngorydd Sir John Morris**

Mae'n dod yn fwyfwy amlwg y bydd y rhagamcanion ar gyfer ariannu ysgolion uwchradd ym Mhowys yn dangos gorwario o o leiaf £2 filiwn erbyn 2017, mewn cyfnod o doriadau ariannol difrifol ar draws y cyngor. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mawr mewn llefydd gweigion mewn rhai ysgolion yn codi amheuon ynglŷn â chynaliadwyedd y ddarpariaeth ysgolion uwchradd ym Mhowys.

O gofio bod angen i ysgolion gael gwybodaeth yn gynnar ar eu cyllidebau er mwyn ymateb i unrhyw newid mewn polisiau, pa gynlluniau yr ydych chi wedi'u rhoi ar waith, fel deilydd portffolio, a'r cabinet i ddelio â'r gorwariant hwn ac i dynnu sylw ysgolion a chymunedau at hyn?

*Y ffigur o £2 filiwn yw'r diffyg a ragwelir ar gyfer 2017 yn seiliedig ar y lefelau staffio presennol a'r nifer disgylion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r 3 blynedd nesaf.*

*Mae swyddogion o'r gwasanaethau Ysgolion a Chyllid eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda phob un o'r ysgolion i ddatblygu strategaethau i sicrhau bod yr ysgolion yn gosod cyllideb gytbwys yn y blynnyddoedd hyd at 2017 a thu hwnt.*

*Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor wedi comisiynu PWC i ymgymryd â darn o waith ar gynaliadwyedd a'r opsiynau i'r dyfodol ar gyfer trefniadaeth y Sector Uwchradd i'r dyfodol.*

Mewn ymateb i'r cwestiwn atodol ynghylch datganiad y Prifathrawon yn adroddiad PWC a fynegai nerfusrwydd na fydd y Cyngor yn cymryd y penderfyniadau sydd eu hangen ac mai ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion uwchradd yn y sir oedd yr unig opsiwn realistig, dywedodd y Deilydd Portffolio ei fod wedi cwrdd â'r penaethiaid. Y teimlad a gafodd o gwrdd â nhw oedd eu bod yn gadarnhaol ac yn sylweddoli bod y pwysau ariannol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a'u bod yn barod i weithio gyda'r Cyngor ac y byddai'n rhaid i ysgolion gau o bosibl.

#### **24.13 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cyngorydd Sir John Morris**

Mae Kirsty Williams AC wedi derbyn nifer o lythyrau yn tynnu sylw at oedi wrth drosglwyddo gofal, blocio gwelyau oherwydd bod yr asiantaeth gofal yn methu â chyflenwi gofal.

Ymysg y rhain y mae llythyr gan Dr D. Paton Cadeirydd is-bwyllgor Powys o Bwyllgor Meddygol Lleol Dyfed Powys. Dywedir bod y methiant eang i ddarparu pecynnau gofal wedi cynyddu'r pwysau ar ysbytai Cymuned Lleol ac ysbytai Dosbarth Cyffredinol er anfantais i'r cleifion agored i niwed hyn a gan effeithio ar ddarparu gwasanaethau i gleifion eraill.

Beth yw maint y broblem blocio gwelyau hon ar draws Powys oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal a sut ydych chi'n cyfarwyddo'r asiantaethau gofal i ddelio â'r mater pwysig hwn?

*Hyd yma, nid ydym wedi derbyn gohebiaeth gan Dr D. Paton Cadeirydd is-bwyllgor Powys o Bwyllgor Meddygol Lleol Dyfed Powys.*

*Lleihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal a sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi yn ddiogel yn y ffordd fwyaf priodol yw ein blaenoriaeth gyntaf. Yn ystod mis Awst a dechrau mis Medi mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu i lefel fel bod rhai defnyddwyr gwasanaethau wedi wynebu oedi am amser annerbyniol o hir, yn enwedig ar draws gogledd Powys; mae'r rhain yn awr yn gostwng yn sylweddol.*

*Rwyf yn falch o adrodd bod y pryderon am oedi wrth drosglwyddo gofal wedi lleihau'n sylweddol erbyn canol Medi.*

*Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael eu monitro'n agos ac yn aml ceir rhesymau unigol cymhleth ac amrywiol am y rhain.*

*Pan oedd y pwysau ar oedi wrth drosglwyddo gofal ar ei anterth, ar 10<sup>fed</sup> Gorffennaf 2014, ceid 28 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn Ysbytai Cymunedol Powys ac roedd 19 o bobl yn aros i gael eu rhyddhau adref gyda phecyn cefnogaeth gofal cartref. Ar 14<sup>eg</sup> Awst 2014, ceid 30 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gyda 17 ohonynt yn aros am becyn gofal cartref ac ar 11<sup>eg</sup> Medi 2014, ceid 28 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gydag 16 ohonynt yn aros am becyn gofal cartref.*

*Ar y rhestr wythnosol ar gyfer Ysbytai Cymunedol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a gyhoeddwyd ddydd Iau 9<sup>fed</sup> Hydref, roedd 25 o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi'u cofnodi ac roedd 9 yn aros am becynnau gofal cartref.*

*Ar gyfer y cleifion hynny a ddewisodd gartref gofal y mae rhestr aros ar ei gyfer, neu os yw'r claf yn 'hunan-gyllido' ni all y Cyngor wneud mwy na rhoi cyngor ac arweiniad i'r claf a'i deulu.*

*Mae'r trefniant ar gyfer rhyddhau cleifion i leoliad gofal mwy priodol yn amrywio yn ôl anghenion pob claf ac i ba raddau y mae'r ymyriadau sydd eu hangen i cefnogi rhyddhau cleifion ar gael. O ganlyniad, gall nifer a natur yr achosion o oedi wrth ryddhau o'r ysbyty amrywio'n sylweddol o ddydd i ddydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.*

Dyma rai o'r ysbytai a gefnogwyd drwy'r gwaith oedi wrth drosglwyddo gofal:

*Gogledd Powys: Ysbyty Brenhinol Amwythig, Ysbyty Cymunedol Llwydlo, Ysbytai Cymunedol Powys, Ysbyty Orthopedig Robert Jones & Agnes Hunt, Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth*

*De Powys: Ysbytai cymunedol Powys, Ysbyty Henffordd, Ysbyty Neville Hall, Ysbyty Morriston, Ysbyty Castell-nedd a Phort Talbot.*

*Dros y 6 wythnos diwethaf gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ac mae'r gostyngiad hwn yn cael ei gyflawni drwy gyfrwng gwaith integredig ar draws asiantaethau partner gan gynnwys:*

- *Parhau i gynyddu capaciti yn y farchnad gofal cartref*
- *Mae achosion oedi wrth drosglwyddo gofal wedi eu blaenorriaethu gan ddarparwyr gofal cartref*
- *Mae Sir Drefaldwyn wrthi'n adolygu ac yn trafod gyda chydweithwyr ym Mwrdd lechyd Addysgu Powys yr holl achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar draws economi lechyd y Gogledd ddwywaith yr wythnos oherwydd y gostyngiad sylweddol yn y lefel gyffredinol o oedi wrth drosglwyddo gofal [arferai hyn gael ei wneud yn ddyddiol]*
- *Yn y de (Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed) sefydlwyd 3 galwad cynadledda'r wythnos gyda chydweithwyr ym Mwrdd lechyd Addysgu Powys i ganiatáu i waith mwy rheolaidd ac wedi'i dargedu gael ei wneud i ostwng nifer yr achosion yn gyflymach;*
- *Mae rheolwyr yn parhau i weithio gyda darparwyr i gynyddu capaciti'r farchnad drwy greu llinellau gofal mwy effeithlon ar draws gogledd Powys;*
- *Mae'r Gwasanaeth Ail-alluogi mewnol wedi'i sefydlu yn Ne Powys, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r gwasanaeth ar draws y gogledd cyn gynted â phosibl;*
- *Mae rheolwyr tîm yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd a darparwyr i ddefnyddio'r capaciti sydd ar gael i'r eithaf er mwyn bodloni anghenion pobl sydd angen y gwasanaethau fwyaf.*
- *Mae galwadau cynadledda wythnosol yn bodoli rhwng dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd lechyd Addysgu Powys a'r Cyfarwyddwr Strategol – Pobl i sicrhau trosolwg strategol ac atebolrwydd.*
- *Caiff taliadau uniongyrchol eu hyrwyddo, ac anogir trigolion i gomisiynu eu pecynnau gofal mwy personol, eu hunain yn unol â'r dull gweithredu y cytunom arno i 'hyrwyddo annibyniaeth' a 'gwneud gyda phobl ac nid gwneud drostynt'.*
  - *Mae swydd Comisiynu Strategol sy'n canolbwytio ar atal ac ymyrraeth gynnar wedi cael ei chynnwys yn yr ailstrwythuro ym*

*maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion i helpu i leihau derbyniadau i'r ysbyty yn y dyfodol.*

- *Yn ychwanegol at y galwadau/trafodaethau penodol ar oedi wrth drosglwyddo gofal, mae'r paneli adnoddau wythnosol yn parhau i graffu ar y rhestrau aros oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pob un o'u meysydd.*

*Ceir cynlluniau hefyd i fuddsoddi ymhellach er mwyn gwella capaciti'r farchnad*

- *Mae gwelyau gofal canolraddol ychwanegol yn cael eu comisiynu. Sicrheir cynnydd mewn capaciti ym Mhowys ac mewn awdurdodau cyfagos. Bydd gwelyau gofal canolraddol yn cefnogi rhyddhau o'r ysbyty tra bod gofal ail-alluogi/tymor hwy fel y bo'n briodol yn cael ei drefnu.*
- *Bydd y contract gofal yn y cartref a adawyd yn wag gan Reach yn cael ei ail-dendro ar ôl cwblhau'r adolygiad annibynnol o'r broses gomisiynu a mabwysiadu'r gwersi a ddysgwyd.*
- *Mae gwasanaethau Adref o'r ysbyty yn cael eu hadolygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ganfod sut all gwasanaethau i'r dyfodol gael eu defnyddio i ddarparu cymorth ychwanegol.*
- *Mae Rhannu Bywydau hefyd yn cael ei archwilio fel opsiynau lleoliadau tymor byr pryd bynnag y bo'n briodol.*

Yn ateb i'r cwestiwn atodol ynglŷn ag a oedd problem systemig gydag oedi wrth drosglwyddo gofal, cadarnhaodd y Deilydd Portffolio y byddai cyfarfod wyneb wrth wyneb yn cael ei drefnu gyda Chadeirydd Is-bwylgor Powys o Bwylgor Meddygol Lleol Dyfed Powys a bod pob dim posibl yn cael ei wneud i ostwng niferoedd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

#### **24.14 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Democrataidd gan y cynghorydd Sir Gareth Morgan**

A all yr Aelod Portffolio roi imi'r wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â chost Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer pob Pwyllgor Ardal unigol, sef Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed:-

- (e) cyfanswm y gwariant refeniw ar gyfer 2013/14 a'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer 2014/15, mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Democrataidd a chymorth ar gyfer pob Sir gan gynnwys cost galw cyfarfodydd, cymorth swyddogion, cynrychiolaeth gan uwch swyddogion mewn cyfarfodydd, cost mynchyu cyfarfodydd i'r aelodau ac, os yw ar gael, treuliau teithio aelodau'r Cabinet sy'n mynchyu cyfarfodydd y tu allan i'w Hardaloedd eu hunain;

- (f) gwariant cyfalaf pob un o'r Pwyllgorau Ardal unigol ar gyfer y blynnyddoedd uchod ar gynnal a chadw adeiladau i safon fodhaol;
- (g) dynodi'r pwerau Gweithredol sydd gan bob Pwyllgor Ardal gan nodi pa mor aml y defnyddir y pwerau hyn;
- (h) pa wariant aed iddo i ddarparu lluniaeth mewn cyfarfodydd Ardal?

(e) *Nid yw'r cyllidebau refeniw ar gyfer Aelodau a Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu dadansoddi yn ôl Ardaloedd. Roedd cyfanswm gwariant y gyllideb ar gyfer Aelodau yn 2013/14 yn £3,655,080. Mae'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn £3,349,060. Roedd cyfanswm y gwariant ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd yn 2013/14 yn £88,162. Mae'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn £99,620.*

*Yn yr amser oedd ar gael ni fu'n bosibl cyfrannu cost cymorth swyddogion na gweithio allan gost cyfarfodydd.*

*Dyma gostau teithio'r Aelodau:*

Sir Drefaldwyn	£2,510.20 yn 2013/14	£674.10 yn 2014/15 (Ebrill i Fehefin)
Sir Frycheiniog	£ 832.05 yn 2013/14	£ 71.55 (Un cyfarfod)
Sir Faesyfed	£1,116.45 yn 2013/14	£352.35 yn 2014/15 (Ebrill i Fehefin)

*Roedd y gost i aelodau Cabinet o Ardaloedd eraill fynychu Sir Drefaldwyn yn £346.45 yn 2013/14 ac yn £72.00 yn 2014/15 (Ebrill i Fehefin).*

*Roedd y gost i aelodau Cabinet o Ardaloedd eraill fynychu Sir Frycheiniog yn £184.05 yn 2013/14 ac yn £142.65 yn 2014/15 (Ebrill i Fehefin).*

*Roedd y gost i aelodau Cabinet o Ardaloedd eraill fynychu Sir Faesyfed yn £635.50 yn 2013/14 ac yn £158.40 yn 2014/15 (Ebrill i Fehefin).*

(f) Ni fu dim gwariant cyfalaf.

(g) Mae'r swyddogaethau Gweithredol canlynol wedi'u dirprwyo:

Swyddogaethau Priffyrdd -

O fewn fframwaith y cytunodd y Pwyllgor Gweithredol arno, ac o fewn cyllideb flynyddol i gael ei dyrannu gan y Pwyllgor Gweithredol, ac yn ddarostyngedig i uchafswm o £50,000 i bob prosiect unigol:-

6. *Pob penderfyniad yn ymwneud â chynnal a chadw priffyrdd o fewn y cynlluniau cyffredinol a bennir gan y Pwyllgor Gweithredol yn ymwneud â:*

- (a) Rhagleni Gwella Lleol;
- (b) Y Rhaglen Cynnal a Chadw Priffyrdd gyffredinol;
- (c) Cynnal a chadw pontydd heb fod yn waith saerniol.

7. *Gwneud Gorchmyntion Rheoli Traffig (gydag eithriadau cyfyngedig penodol a ddirprwywyd i'r Cabinet).*

8. *Hybu a datblygu cynlluniau diogelwch ffyrdd lleol.*

9. *Darparu, gweithredu a chynnal a chadw llefudd parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd, gan gynnwys codi tâl.*

10. *Pob mater yn ymwneud â Gwasanaethau Trefol:*

- (a) glanhau strydoedd a sbwriel;
- (b) cynnal a chadw ymwl ffyrdd;
- (c) marchnadoedd (da byw, cynhyrchion a'r stryd), heblaw am agweddau rheoleiddio;
- (d) draeniau tir;
- (e) rhandiroedd;
- (f) mân-wasanaethau trefol amryfal eraill

Grantiau Lleol -

2. *Penderfynu ynglŷn â grantiau cymunedol lleol yn unol â'r polisi a'r gyllideb a bennir gan y Pwyllgor Gweithredol. (Terfyn presennol - £2000)*
2. *Penderfynu ynglŷn â Grantiau Treftadaeth Adeiledig a ariennir o ddyraniadau tref-benodol y Gronfa Adfywio leol a Chymeradwyaeth Gredyd Sylfaenol yn unol â'r polisi a'r gyllideb a bennir gan y Pwyllgor Gweithredol.*

*Gwnaeth Sir Drefaldwyn benderfyniadau yn ymwneud â materion Priffyrdd, parcio a diogelwch y ffyrdd mewn 3 chyfarfod yn 2013/14 ac mewn 4 cyfarfod hyd yma yn 2014/15. Cynhalwyd 6 chyfarfod o ls-bwyllgor Grantiau*

*Treftadaeth Adeiledig Sir Drefaldwyn yn 2013/14, ond dim hyd yma yn 2014/15.*

*Gwnaeth Sir Frycheiniog benderfyniadau yn ymwneud â materion Prifyrdd, parcio a diogelwch y ffyrdd mewn 5 cyfarfod yn 2013/14 ac mewn 3 chyfarfod hyd yma yn 2014/15.*

*Gwnaeth Sir Faesyfed benderfyniadau yn ymwneud â materion Prifyrdd, parcio a diogelwch y ffyrdd mewn 3 chyfarfod yn 2013/14 ac mewn 1 cyfarfod hyd yma yn 2014/15.*

- (h) Ni ddarparwyd lluniaeth yng nghyfarfodydd Sir Drefaldwyn ers rhai blynnyddoedd. Ceir peiriant gwerthu yn y cyntedd y mae aelodau a staff yn ei ddefnyddio, ac fe wnaeth hwn ynghyd â'r ail beiriant yn Neuadd Maldwyn gostio £1,597.96 i'w rhentu yn 2013/14.

*Roedd y gost o ddarparu lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd Sir Frycheiniog yn £185.56 yn 2013/14.*

*Roedd y gost o ddarparu lluniaeth ar gyfer Sir Faesyfed yn £224.60 yn 2013/14.*

*Penderfynodd cyfarfod y Cyngor ar 30<sup>ain</sup> Ebrill 2014 roi'r gorau i ddarparu lluniaeth mewn cyfarfodydd.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.15 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Prifyrdd ac lechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Russell George**

**Sefydlodd yr awdurdod system o ardaloedd Amgylcheddol Lleol, fel y gallai penderfyniadau gweithredol a gwasanaethau lleol gael eu hintegreiddio, y rheswm dros y newid hwn oedd er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon. A all yr aelod cabinet amlinellu unrhyw newidiadau i'r system hon, a pham bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud?**

*Cytunwyd bod ar ein gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu ac ein gwasanaeth Prifyrdd, Tiroedd a Strydoedd angen strwythurau gweithredol ar wahân ynghyd â gweithlu dynodedig i ganolbwytio ar y cylch gwaith penodol gan y naill swyddogaeth, gan gadw lefelau uchel o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ar yr un pryd. Pan ddatblygwyd y trefniant Amgylchedd Lleol roedd ein swyddogaeth Sbwriel hefyd yn datblygu i'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu sydd gennym heddiw. Fodd bynnag, wrth i'r adran Gwastraff ac Ailgylchu barhau i ddatblygu caiff ei ystyried fel un o'r blaenoriaethau o hyd a chaiff yr adnodd gwasanaethau ei dynnu ato ar draul cyflawni ein swyddogaethau Prifyrdd, Tiroedd a Gwasanaethau Stryd. Mae ethos bod yn*

*gallu integreiddio penderfyniadau gweithredol a chyflenwi gwasanaethau lleol yn dal yn berthnasol a bydd yn parhau i gael ei weithredu ar draws y ddwy swyddogaeth. Rydym wedi lleihau nifer y rheolwyr ar draws y ddwy swyddogaeth ac wedi dod o hyd i ffordd o ryddhau capaciti a gallu ar y lefel hon er mwyn edrych ymlaen a datblygu'r dull comisiynu ar gyfer y gwasanaeth yn unol â'r gofyn sydd ar yr Awdurdodau i sicrhau arbedion o £70m erbyn 2020.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.16 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cwsmeriaid gan y Cyngorydd Sir Russell George**

**A all yr aelod Cabinet ddarparuolen gyswilt ar wefan y Cyngor i rifau ffôn cysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor, ac a all ef roi ei farn ar ba mor hawdd ydyw dod o hyd i'r rhifau hynny ar y wefan. A yw'r aelod cabinet hefyd yn cytuno â mi bod angen i drigolion Powys weithiau gael sgwrs dros y ffôn gydag aelod o staff, ac nad e-bost a mathau eraill o gysylltiadau anuniongyrchol bob amser yw'r ffordd fwyaf priodol o helpu gydag ymholiad?**

*Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu darparu gan nifer o adrannau ac un o'r adrannau hynny'n unig yw Gwasanaethau Cwsmeriaid. Mae'r cyngor felly'n darparu gwasanaeth switsfwrdd awtomataidd sydd i'w weld ar y dudalen hon ar y we:*

<http://www.powys.gov.uk/cy/cysylltu-ar-cyngor/>

*Gellir cyrraedd y dudalen honno fel a ganlyn:*

- *Ar waelod (troedyn) pob un dudalen ar y we gan gynnwys y dudalen hafan*
- *Drwy ddilyn y ddolen gyswilt 'Cysylltu â Ni' hanner ffordd i lawer y dudalen hafan.*
- *Drwy ddefnyddio swyddogaeth chwilio'r wefan i ddod o hyd i, er enghraift, 'rhifau ffôn' neu 'cysylltiadau'.*

*Yn ogystal, bydd chwilio am adran, e.e. lechyd yr Amgylchedd yn eich arwain at dudalennau lle cewch y rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.*

*Mae'r wefan yn cefnogi'r strategaeth y cytunodd y Cyngor arni i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau electronig cymaint ag y bo modd er mwyn lleihau'r galw dros y ffôn, gan gefnogi ymdrechion ar draws y Cyngor cyfan i gyrraedd targedau effeithlonwydd y cytunwyd arnynt. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau sy'n caniatáu i gwsmeriaid wasanaethu eu hunain heb orfod siarad â neb. Pan fydd cwsmer yn dymuno siarad ag adran, mae manylion cyswilt yr adran i'w gweld ar y tudalennau perthnasol.*

*Nid yw'r wefan wedi ei threfnu o amgylch adrannau oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn deall pa adran i gysylltu â hi. Felly, mae'r rhifau ffôn yn cael eu dangos ar dudalennau sy'n dangos y dasg y mae pobl â diddordeb yn ei gwneud. Er enghraifft, bydd pobl sydd am Chwilio, gweld neu roi sylwadau am gais cynllunio yn ymweld â'r dudalen hon (lle gallant gyflawni'r dasg ar-lein neu ddod o hyd i rif ffôn yr adran Gynllunio):*

<http://www.powys.gov.uk/cy/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/chwilio-gweld-a-rhoi-sylwadau-ar-geisiadau-cynllunio/>

*Ymwelir â'n gwefan tua 55,000 o weithiau bob mis. Mae pobl sy'n defnyddio'r wefan yn cael eu cefnogi gan sgwrs wib i ateb eu cwestiynau ar unwaith, a gan ffurflen adborth ar bob tudalen. Mae llond llaw o bobl yn adrodd am beth anhawster yn dod o hyd i fanylion cysylltu, ond mae'r rhan fwyaf yn gallu gwneud hynny'n hawdd. Yn dilyn adborth, gwnaed newidiadau i'r safle ym mis Medi i'w gwneud yn haws i ddod o hyd i rifau cysylltu a chyfeiriadau.*

*Ar unrhyw un adeg, bydd llawer o bobl ar y wefan, a gall rhai ohonynt fod ar y dudalen Cysylltu â Ni, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r wefan i wasanaethu eu hunain, neu i ddod o hyd i wybodaeth, gan gynnwys rhifau ffôn.*

*Mae'r wefan ar gael 24 awr y dydd i bobl gael mynediad at ein gwasanaethau, gan arbed arian i'r Cyngor tra'n darparu gwasanaeth ardderchog y tu allan i oriau ar gyfer y cyhoedd.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.17 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cyngorydd Sir Russell George**

**A all yr aelod cabinet ddarparu'r wybodaeth ganlynol?**

Cyfanswm y pryderon a'r digwyddiadau ffurfiol ynglŷn â darparu Gofal cymdeithasol i oedolion, neu ansawdd y gwasanaeth hwnnw, ar gyfer y cyfnodau canlynol isod gan bob sefydliad partner (ee GIG, yr heddlu, Bwrdd lechyd Addysgu Powys, meddygon teulu) gwleidyddion, ac oddi wrth y cyhoedd

**A – Ebrill 1<sup>af</sup> 2013 – Medi 30<sup>ain</sup> 2013 (cyfnod 6 mis y flwyddyn diwethaf)**

**B – Ebrill 1<sup>af</sup> 2014 – Medi 30<sup>ain</sup> 2014 (cyfnod 6 mis y flwyddyn hon)**

**C – Yr un wybodaeth i gael ei darparu yn ôl niferoedd o ran digwyddiadau misol.**

#### **Diogelu**

*Mae Gwasanaeth Amddiffyn Oedolion/Diogelu'r Cyngor yn derbyn yr holl atgyfeiriadau a wneir i'r Cyngor ac wedyn yn asesu a yw'r atgyfeiriadau hyn yn bodloni'r trothwy ar gyfer Amddiffyn Oedolion, sef 'niwed sylweddol', ac ar ôl*

*eu hasesu caiff llawer o atgyfeiriadau eu cau yn ystod y cam cyntaf, oherwydd y tybir nad ydynt yn bodloni'r trothwy hwn.*


*Felly, mae'r ffigurau isod yn ymwneud â'r HOLL atgyfeiriadau a dderbyniwyd*

*Nifer yr atgyfeiriadau diogelu a ddaeth i law;*

Cyfnod	Cyfanswm yr Atgyfeiriadau Diogelu a Ddaeth i Law	Atgyfeiriadau wnaeth symud ymlaen i ymchwiliad, (ar ôl bodloni'r trothwy)
1 <sup>af</sup> Ebrill 2013- 30 <sup>ain</sup> Medi 2013	217	36
1 <sup>af</sup> Ebrill 2014- 30 <sup>ain</sup> Medi 2014	309	93, gyda 26 o'r achosion yn mynd rhagddynt drwy un asiantaeth a 12 o'r achosion drwy gyd ymchwiliad gyda'r Heddlu.

*Cafodd y dull diogelu hwn ei reoli ar y cyd â'r broses performiad darparwyr a rhoddyd cynlluniau amddiffyn unigol ar waith i ddiogelu a chefnogi'r cleientiaid hyn.*

*Dyma ddadansoddiad o'r atgyfeiriadau fesul mis:*



*Yn amlwg, mae'r tabl hwn yn dangos, er y cafwyd lefelau uchel o bryderon Diogelu ym mis Mai a mis Mehefin, mae'r rhain bellach wedi gostwng ac ar gyfer y 3 mis diwethaf maent wedi bod yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth y gwasanaeth mewn partneriaeth â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd*

Addysgu Powys, yr Heddlu, AGGCC a darparwyr weithio i roi sylw i'r materion hyn ac i ddiogelu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Cwynion / Canmoliaeth

	<b>2013/14</b>		<b>2014/15</b>	
<b>Mis</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Canmoliaeth</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Canmoliaeth</b>
<i>Ebrill</i>	2	1	4	2
<i>Mai</i>	1	0	7	3
<i>Mehefin</i>	1	0	25	1
<i>Gorffennaf</i>	1	0	11	0
<i>Awst</i>	1	1	5	0
<i>Medi</i>	0	0	6	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	<b>2</b>	<b>58</b>	<b>8</b>

	<b>2013/14</b>		<b>2014/15</b>	
<b>Ardal</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Canmoliaeth</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Canmoliaeth</b>
<i>Aberhondu</i>	0	1	6	1
<i>Y Drenowydd</i>	1	0	16	0
<i>Maesyfed</i>	4	0	8	5
<i>Y Trallwng</i>	0	1	20	0
<i>Ystradgynlais</i>	1	0	8	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	<b>2</b>	<b>58</b>	<b>8</b>

Ymholiadau gan Aelodau'r Cynulliad / Aelodau Seneddol ynghlyn â Phecynnau Gofal

Fel y darparwyd gan y tîm cefnogi aelodau, Cyngor Sir Powys. Hyd at fis Mehefin 2014 nid oedd y system o ddefnyddio'r tîm cefnogi aelodau wedi datblygu cystal, ac felly mae'r cymharydd hwn yn llai defnyddiol neu'n llai cywir wrth edrych ar faterion a godir gan Gynghorwyr/ ACau/ASau ar gyfer cyflwyno ymholiadau; tan hynny ni fyddai'r ymholiadau a wnaed ac a gofnodwyd yn yr isod o anghenraid yn adlewyrchu nifer yr ymholiadau a wnaed.

<b>Mis</b>	<b>Deiliyd Portffolio / Cynghorydd</b>	<b>ACau</b>	<b>ASau</b>	<b>Arall Bwrdd Iechyd / Cyngor</b>	<b>e.e.</b>
------------	------------------------------------------------	-------------	-------------	--------------------------------------------	-------------

	<i>Sir</i>			<i>Cymuned</i>
<i>1<sup>af</sup> Ebrill 2013 tan 30<sup>ain</sup> Medi 2013</i>	5	2	1	0
<i>1<sup>af</sup> Ebrill 2014 tan 30<sup>ain</sup> Medi 2014</i>	17	22	12	9

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

### **Cwestiynau Brys**

#### **24.18 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adfywio a Chynllunio gan y Cyngor Sir Wynne Jones, Aled Davies a John Morris**

O ystyried y llythyr gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 8<sup>fed</sup> Medi, a godai nifer o wrthwynebiadau cryf i'r Fersiwn Adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Powys, ac a allai greu oedi sylweddol ym mhroses y CDLI, a all y Deilydd Portffolio roi i'r Cyngor ddatganiad llawn a diweddar ar y mater hwn, a hefyd roi manylion i'r Cyngor am y goblygiadau tebygol ar adnoddau, ail-ymgyngħori posibl ac ar yr anawsterau posibl a all godi pe byddai'r Cyngor o bosibl yn methu â chynnal cynllun datblygu sy'n bodoli?

*Daeth y cyfnod statudol chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus ar fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol i ben ar 8<sup>fed</sup> Medi 2014. Daeth sylwadau i law oddi wrth fwy na 200 o unigolion neu sefydliadau ac mae'r rhain yn cael eu cydgasglu, eu mynegeio a'u hadolygu gan y tîm CDLI ar hyn o bryd.*

*Mae un o'r ymatebion hyn wedi cael ei anfon gan Lywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 8<sup>fed</sup> Medi, 2014 ac mae'n codi pryderon y gallai Arolygydd Cynllunio gael y CDLI yn ddiffygol pe bai'n symud ymlaen i Archwiliad Cyhoeddus heb dystiolaeth ategol ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi copi o'r llythyr hwn ar ei gwefan:*

<http://wales.gov.uk/topics/planning/development-plans/ourrole/local-development-plans-official-responses/powys/?skip=1&lang=cv>

*Mae wedi argymhell i dystiolaeth ychwanegol gael ei pharatoi a'i chyhoeddi, yn enwedig mewn perthynas â materion tai, a bod y cyfnod ymgynghori statudol ar y fersiwn adneuo yn cael ei ailadrodd gyda chyfres gynhwysfawr o dystiolaeth i gefnogi'r cynllun.*

*Fe wnes i ynghyd ag uwch swyddogion y Cyngor gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Rosemarie Thomas, Prif Swyddog Cynllunio Cymru ddydd Gwener 17<sup>eg</sup> Hydref, 2014.*

Mae gennyf hefyd gyfarfod sydd wedi'i drefnu gyda Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor ar 20<sup>fed</sup> Hydref 2014 i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau posibl o ran casglu tystiolaeth ychwanegol a chynnal ymgynghoriad pellach.

Bydd amserlen ddiwygiedig yn cael ei hadrodd wrth Gyngor Sir Powys i'w hystyried a'i chymeradwyo ar ddechrau 2015 oherwydd mai ar hyrwyddo sylfaen dystiolaeth y CDLI y bydd ffocws cychwynnol y gwaith. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r dull gweithredu hwn ac wedi cynnig cymorth priodol i sicrhau cydymffurfiad technegol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y gall y broses CDLI, yn ei hanfod, fod yn anrhagweladwy, fel y mae profiadau llawer o awdurdodau eraill wedi dangos, a bod posibilrwydd i hyn effeithio ar yr amserlen. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod oedi eisoes wedi bod yn rhan gyntaf y broses gynllunio pan nad fi oedd yr Aelod Portffolio. Er y byddaf yn ceisio osgoi amgylchiadau lle bydd y Cyngor yn cael ei hun mewn sefyllfa lle nad oes ganddo gynllun datblygu mabwysiedig mewn bodolaeth ar waith, mae yna risg, yn wir bu wastad risg, y gallai'r Cyngor gael ei hun mewn sefyllfa o'r fath. Mae yna eisoes awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n cael eu hunain ar hyn o bryd mewn sefyllfa o'r fath.

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda'n Huwch Swyddogion wedi cytuno bod modd delio â'r sefyllfa ac y bydd cynllun gweithredu clir, sydd â'r adnoddau priodol ac a gaiff ei fonitro'n ofalus, yn ein galluogi i symud i sefyllfa lle gall y CDLI gael ei fabwysiadu o fewn amserlen ymarferol.

Bydd y trafodaethau hyn yn parhau yn rheolaidd ac mae'n fwriad gennyf roi pob darn o wybodaeth am y cynnydd i'r Cyngor. Yn ogystal, bydd y Cyngor Sir yn cyfarfod i ystyried y materion hyn yn fanwl, ac fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r CDLI, cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig yn ffurfiol.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

#### **24.19 Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance**

Mae mesurau arbennig wedi cael eu gosod ar Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy sy'n rhedeg Ysbyty Sirol Henffordd ar ôl iddo gael ei raddio'n "annigonol".

Yn amlwg, mae hyn yn bryder i ddinasyddion ym Mhowys sy'n defnyddio gwasanaethau ar draws y ffin gan yr ymddiriedolaeth yn Lloegr.

Pa drafodaethau y mae Cyngor Sir Powys yn eu cael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys a'r Cyngorau Iechyd Cymuned Lleol am y mater?

*Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi hysbysu Cyngor Sir Powys y gosodwyd mesurau arbennig ar Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy ac mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gwneud y datganiad canlynol:-*

*“Byddai Bwrdd Iechyd addysgu Powys yn hoffi sicrhau'r trigolion hynny ym Mhowys sy'n defnyddio gwasanaethau yn Henffordd am y gwasanaethau a gânt.*

*Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn comisiynu gofal brys a gofal wedi'i gynllunio gan yr Ymddiriedolaeth ac mae'n gweithio ochr yn ochr â Grŵp Comisiynu Clinigol Henffordd i'w gefnogi i roi ar waith gynlluniau i wella ansawdd ei wasanaethau.*

*Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus y bydd y bartneriaeth a gyhoeddwyd gydag Ysbytai Prifysgol Birmingham yn cryfhau ymhellach allu Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy i roi sylw i'r heriau sylweddol a nodir yn adroddiad y Comisiwn Ansawdd Gofal ac mae'n croesawu'r cymorth ychwanegol y bydd hyn yn ei ddarparu.*

*Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei rôl i gefnogi'r Ymddiriedolaeth i leihau baich gofal aciwt yn ogystal â phwysigrwydd cyfraniad Powys i weithredu cynlluniau i leihau derbyniadau brys diangen, wrth i ni symud i mewn i fisoedd y gaeaf.*

*Rydym yn croesawu adborth gan ein cleifion a'u gofalwyr am eu profiadau o'r gwasanaethau a gânt gennym ni a'n holl ddarparwyr, a byddwn yn parhau i ddefnyddio hyn i lywio'r gwaith a wnawn gyda'n darparwyr i wella ansawdd gwasanaethau iechyd ar gyfer trigolion Powys. “*

*Drwy ein trefniadau strategol a gweithredol byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa'n agos ac yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau y gall trigolion Powys gael mynediad i'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae'r mater hefyd yn cael ei drafod yng nghyfarfod bwrdd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n cwrdd heddiw.*

*Yn ateb i'r cwestiwn atodol, addawodd yr Arweinydd hysbysu'r aelodau o unrhyw ddatblygiadau pellach.*

<b>25.</b>	<b>DYDDIADUR Y CYNGOR AR GYFER 2015</b>	<b>CC100A – 2014</b>
------------	-----------------------------------------	----------------------

**Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyngor y dyddiadur o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2015.**

<b>26.</b>	<b>YMDDIHEURIAD GAN YR ARWEINYDD</b>	<b>CC100B – 2014</b>
------------	--------------------------------------	----------------------

Gwnaeth yr Arweinydd yr ymddiheuriad canlynol ar ei ran ef ei hun a'r Cynghorwyr Sir Dai Davies a John Powell:

“Hoffwn ymddiheuro i'r Cyngor drwy gyfrwng esboniad personol ar fy rhan fy hun ac ar ran y Cynghorwyr Dai Davies a John Powell. Gan ei bod mor hwyr yn y dydd mae'r cynghorwyr wedi gofyn imi ymddiheuro'n bersonol i'r Cyngor am ein methiant i ddatgan buddiant personol a rhagfarnus ynglŷn â thrafodaeth y Cabinet ar 9<sup>fed</sup> Medi 2014 mewn perthynas â dileu'r disgowntiau Treth Gyngor ar gyfer eiddo sydd heb eu meddiannu a heb eu dodrefnu i raddau helaeth.

Adeg cyfarfod y Cabinet ar 9<sup>fed</sup> Medi 2014 nid oeddwn i na fy nghydweithwyr wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r cwestiwn a oedd gennym unrhyw fuddiant y dylem fod wedi'i ddatgan yn y mater neu beidio, ac nid oedd swyddogion wedi tynnu ein sylw at y mater.

Rydym i gyd yn gwerthfawrogi bod datganiadau o ddiddordeb yn bersonol i bob un ohonom, ac rydym i gyd yn derbyn y dylem fod wedi ceisio cyngor priodol ar ein hamgylchiadau personol.

Rydym yn ymddiheuro i'r cyngor am ein diofalwch personol ac am y ffaith bod ein diofalwch wedi achosi cryn oedi yng ngweithdrefnau'r bore gerbron y Cyngor.”

Dyweddodd y Cynghorydd Phil Pritchard ei fod ef hefyd yn dymuno cael ei gynnwys yn yr ymddiheuriad oherwydd ei fod ef hefyd wedi bod yn y Cabinet ar 9<sup>fed</sup> Medi.

**L.R.E. DAVIES  
CADEIRYDD**